# Bywyd Siddhartha: nodiadau cefndir

Mae llawer o fersiynau o ddigwyddiadau 'mytholegol' yn gysylltiedig â genedigaeth Bwdha. Mae straeon am fywyd y Bwdha i'w gweld mewn amryw o destunau cysegredig, fel y Mahavastu, y Buddhacarita a'r Swtra Lalitavistara. Credir bod Siddhartha wedi bod yn aelod o'r dosbarth llywodraethol o ryfelwyr (Ksatriyas) o bobl y Shakya, a oedd yn byw o gwmpas gwlad Nepal gyfoes. Cafodd ei eni i'r rheolwr lleol, Suddhodana, a oedd yn briod â Maya.

Mae'r holl straeon yn awgrymu bod Siddhartha'n unigryw. Ar adeg ei genhedlu deng mis yn gynharach, yn ôl traddodiad, breuddwydiodd Maya fod eliffant gwyn wedi mynd i mewn i'w chroth. Ganwyd Siddhartha o'i hochr a digwyddodd hyn dan goeden. Yn ogystal, safodd y baban Siddhartha ar ei draed ar unwaith a chymryd saith cam a chyhoeddi na fyddai'n cael mwy o ailenedigaethau!

Mae tynged Siddhartha hefyd yn thema naratifau'r geni. Bu i rai dynion duwiol ar y pryd ddarogan y byddai'n rheolwr cryf fel ei dad. Cododd un arall o'r enw Asita ddau fys i ddangos y byddai Siddhartha naill ai'n rheolwr lleol neu'n ddyn duwiol crwydrol. Rhagwelodd un arall o'r enw Kondanna y byddai'n dod yn ddyn duwiol ac yn ceisio'r gwirionedd. Er mwyn osgoi hyn, dywed y stori bod rhaid i'r brenin sicrhau bod ei fab yn byw bywyd o foethusrwydd llwyr a oedd yn osgoi unrhyw annifyrrwch. Yn benodol, roedd pedwar peth yr oedd angen eu hosgoi.

Gelwir y pedwar peth hwn a waherddir yn 'y pedwar arwydd' neu 'y pedair golygfa'. Yn eu hanfod, dyma nhw: (1) henaint, (2) salwch, (3) marwolaeth, a, (4) dyn duwiol crwydrol. Dadleuwyd pe bai'r tywysog yn cael ei gadw i ffwrdd o'r pedwar peth hyn, yna ni fyddai'n gwyro oddi ar ei lwybr tuag at fod yn frenin a rheolwr yn y dyfodol. Nes ei fod yn 29 oed, er gwaethaf byw bywyd hynod o foethus ac amddiffyniad eithafol, nid oedd ei fywyd yn ddim mwy anghyffredin na bywyd meibion rheolwyr eraill. Pan oedd yn 16 oed, priododd Yasodhara a buont yn byw yn gymharol ddigyffro ar diroedd y palas. Mae'r digwyddiadau sylweddol a arweiniodd at newid i Siddhartha yn cynnwys teithiau o dir y palas gyda'i gerbydwr Channa pan oedd yn 29 oed.

Yr olygfa gyntaf oedd hen ddyn, gwan, a oedd yn grwm gan henaint. Yr ail olygfa oedd dyn arall a oedd wedi cael ei reibio gan glefyd, yn ddim ond croen ac esgyrn a gyda'r ychydig nerth oedd ar ôl yn ei gorff yn pylu. Y drydedd olygfa oedd perthnasau'n galaru ac yn cario corff eu hanwylyd ar eu hysgwyddau yn barod i'w amlosgi.

Roedd effaith profiad o'r fath yn amlwg yn mynd i fod yn fwy dwys oherwydd natur gysgodol bywyd Siddhartha. Dyma oedd ei ddealltwriaeth gyntaf o'r ffaith ei fod ef, fel y rhai a welodd, yn ddarostyngedig i'r un rheibio gan amser a natur ac na fyddai'n bodoli mwyach yn y pen draw. Roedd hyn yn ei gythryblu ac yn destun pryder mawr iddo. Pam yr holl ddioddefaint hwn?

Yn olaf, yr olygfa a gynhyrfodd y tywysog fwyaf oedd dyn duwiol crwydrol yn cerdded yn ddigyffro ac yn fodlon yn chwilio am y gwirionedd ac am ateb i broblemau bywyd. O ble y daeth yr ymdeimlad hwn o heddwch? Pan ddychwelodd i'r palas, ceisiodd Siddhartha ryddid ar unwaith. Ymwrthododd â'i enedigaeth-fraint a chymryd mantell dyn duwiol crwydrol. Yna aeth i chwilio am ddau athro ioga ac, wrth arbrofi gydag ioga, daeth mor wan a thenau nes ei bod yn bosibl gweld ei asgwrn cefn

# Bywyd Siddhartha: nodiadau cefndir

trwy ei stumog. Ar y pwynt hwn, ar ôl cael ei adfer gan reis llaeth gan fenyw o'r enw Sujata, penderfynodd Siddhartha ddilyn ffordd o fyw gwahanol, sef y Ffordd Ganol.

Yn eistedd dan goeden ffigysbren, mewn cyflwr o fyfyrdod dwys, myfyriodd Siddhartha trwy gydol y nos ar natur bodolaeth. Fodd bynnag, heriodd Mara y duw dieflig Siddhartha i adael ei ymchwiliad. Broliodd Mara na allai neb fod yn dyst i waith da Siddhartha mewn bywydau blaenorol ac yn y bywyd hwn. Ond rhoddodd Siddhartha ei ddwylo ar y llawr a chyffwrdd y ddaear fel tyst i'w waith da.

Ar bwynt goleuedigaeth, daeth Siddhartha i fod yn Fwdha, yr 'un cwbl effro', ac roedd yn gallu gweld bywydau blaenorol pob bod a gweithrediadau karma, pob ffenomenon a oedd yn ddibynnol ar achosion a chyflyrau yn tarddu ac yn peidio â bod, a rhyddhad rhag chwant a dioddefaint.